

Croeso i'r Gymdeithasfa

Cymdeithasfa'r Gogledd, Dydd Mawrth, Ebrill 9fed a Dydd Mercher 10fed, 2019

Croeso cynnes sy'n eich disgwyl gan Henaduriaeth Môn i Gymdeithasfa'r Gogledd ynghyd â chyfeillion a chynrychiolwyr o'r De a'r Dwyrain. Y man cyfarfod fydd Eglwys Rhos-y-Gad, Llanfairpwll, y pentref hwnnw gyda'r enw hirfaith. Fe wyddoch yn iawn amdano.

Wrth ddod dros Bont Britannia gwelwch o edrych yn ofalus Dŵr Marcwis yn cadw ei lygaid arnoch. Rhaid pwylo a throi i'r chwith oddi ar y bont. Dilyn y ffordd i'r chwith a chario ymlaen ar hyd yr A5 i ganol y pentref a throi i'r dde ac fe welwch y Capel ar y chwith. Yno, bydd rhai yn eich croesawu a bydd paned wedi ei pharatoi gan y chwiorydd. Croeso atom.

Tydi Môn ddim yn ddiarth ei chroeso i Gymdeithasfa'r Gogledd. Yn ei thro ymwelodd â Bethesda, Bae Cemaes; Bethesda, Amlwch; Disgwylla, Gaerwen; Hyfrydle, Caerdybi; a Moreia, Llangefni. Diolchwn i swyddogion ac aelodau Rhos-y-Gad am eu parodrwydd i roi cartref am ddeuddydd.

Beth fydd dan sylw y tro hwn tybed? Beth fydd yn cael ei drafod? Beth fydd yn cael ei ddweud? A fydd yna amser i



drafod gwaith a chenhadaeth yr Arglwydd; amser i weddio ac amser i gyhoeddi neges a dymuniad Duw drwy Iesu Grist?

Henaduriaeth a nifer o Eglwysi wedi datgorffori yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw Henaduriaeth Môn ac mae hynny yn achosi pryder a gofid. Newid hinsawdd yng ngweinidogaeth Iesu Grist o fewn tiriogaeth yr Ynys. Yn wyneb hynny ceisiwn ddod â'r ffyddloniaid i ymuno â'i gilydd, a phwyslais ar gyd-addoli a chydgyrffwrddu i'w enw Cristnogaeth.

Mae'n dymor y Gwanwyn.

Ein gweddi yma ym Môn, yw am ddyfodiad Gwanwyn Duw i'n bro.

Cofiwn am ei gweinidogion a'i phregethwyr fu ac sydd yn cyhoeddi neges y Gwanwyn, neges yr Atgyfodiad, neges y Bywyd Newydd, neges y Newyddion Da.

Ymunwn gyda dymuniad sydd yn emyn Gwili (yn adran 'Yr Ysbryd Glân a'i Waith' sef Emyr 593).

“Cyfranna i'n heneidiau trist orfoledd meibion Duw, a dangos inni olud Crist yn fodd i fyw.”

Am wanwyn Duw dros anial gwyw dynolryw deffro'n llaf, a dwg yn fuan iawn i'n clyw y sŵn o'r nef.”

Arweinied a chynorthwyed yr Ysbryd ni yn ein myfyrdodau a'n trafodaethau, fel y bydd popeth a wnawn yn unol ag ewyllys a dymuniad Duw yn Iesu Grist. Boed bendith.

Y Parchedig Richard O. Jones, Llywydd Henaduriaeth Môn.

Ffarwel a diolch

Gyda phenodiad Ffion Williams a Joanna Thomas-Wright i swyddi yn y swyddfa ganolog yng Nghaerdydd (Goleuad, 22 Mawrth) nodwn bod y Parch Ifan Roberts wedi ymddeol o'i swydd fel Prif Weinydd i'r Cyfundeb ar 31 Mawrth 2019.

Mae Ifan wedi gwasanaethu'r Corff am bron i ddeugain mlynedd fel gweinidog yng ngofalaethau Uwchaled, Penrhyndeudraeth, Prestatyn a Chwm Gwendraeth. Gwasanaethodd fel ein

Ysgrifennydd Cyffredinol rhwng 2002-2010. Wedi ymddeol o'i ofalaeth daeth i'r adwy i wasanaethu fel Prif Weinydd.

Wrth gydnabod ei gyfraniad dywedodd y Parch Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, “Diolchwn i Ifan am ei ofal, ei ddyfalbarhad a'i wasanaeth ffyddlon i'r Arglwydd Iesu Grist yn ein plith. Dymunwn i fendith Duw orffwys ar ei ymddeoliad ef a Chatrin.”

